Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 298 - 22 Mawrth 2007
S4C, Llanisien, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2007.

1. **Gwasanaeth i Blant a Phobl Ifanc**
   Nodwyd bod S4C wedi cyhoeddi ei bwriad i lansio sianel ar gyfer plant a phobl ifanc ac y bydd yn cyfarfod â DCMS yn fuan i drafod yr ymgynghoriad.

2. **Darllediadau yn ystod yr Etholiad**
   Trafodwyd Polisi drafft S4C ar ddarllediadau etholiadol gan bleidiau gwleidyddol ar gyfer etholiad y Cynulliad ym mis Mai ac awgrymwyd nifer o newidiadau i'r Polisi. Gofynnwyd i EM a JWJ lunio drafft newydd i'w anfon at y Comisiwn Etholiadol. Nodwyd y byddai'r Uned Fonitro yn Aberystwyth yn monitro cydymffurfiaeth â'r polisi.

3. **Cynllun Rhaglenni'r bartneriaeth strategol gyda'r BBC**
   Cyflwynodd RG ei hadroddiad a nodwyd y byddai'r BBC yn rhan allweddol o'r gwasanaeth plant a phobl ifainc.

4. **Cymeradwyo Amcanion a Chyfrifoldebau'r Pwyllgor Cynnwys, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Personél**
   Cymeradwywyd yr amcanion a chyfrifoldebau, gyda mân newidiadau ieithyddol neu i sicrhau cysondeb.

5. **Adroddiad y Cadeirydd**
   Amlinellodd JWJ y cyfarfodydd y mae wedi mynychu fel Cadeirydd yr Awdurdod yn ystod y mis diwethaf.

6. **Adroddiad y Prif Weithredwr**
   Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad. Nododd bod angen adrodd yn ôl i'r Awdurdod fis nesaf ar ôl i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ystyried canlyniadau'r archwiliad mae S4C yn ei gynnal i'r defnydd o alwadau ffôn graddfa uwch yn ei rhaglenni.

   Nododd bod Ofcom wedi diolch i S4C am ei sylwadau a chywiriadau i'w Adroddiad Blynyddol ar ddarlledwyr cyhoeddus. Mae S4C yn falch o'r cyfeiriad yn yr adroddiad at gynydd yn ffigyrau gwylio S4C.

   Cyhoeddodd bod S4C Masnachol newydd werthu ei gyfran yn Sam Tân. Nodwyd y bydd gan S4C hawliau Cymraeg i'r cyfresi sydd i ddod am y pris y gellid eu prynu yn y farchnad.

   Nodwyd y bydd papur S4C yn ymateb i ymgynghoriad Ofcom ar PSP yn cael ei ddosbarthu i'r aelodau a gwahoddwyd sylwadau oddi wrth yr aelodau erbyn diwedd Mawrth.

7. **Cyflwyniad Cynllun Cyfathrebu**
   Rhoddodd Huw Rossiter gyflwyniad i'r Awdurdod ar weithgareddau cyfathrebu S4C.

8. **Materion Eraill**
   Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:
   - Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
   - Adroddiad y Pwyllgor Personél
   - Adroddiad Ymchwil
   - Adroddiad Cyfarwyddwr Comisiynu
   - Rhaglen Waith yr Awdurdod 2007
   - Tabl Digwyddiadau am 2007